# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)29-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kirsty Williams ac Arweinydd y Tŷ. Croesawodd Peter Black a Carl Sargeant a oedd yn eu cynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)28-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Awgrymwyd diwygiad, a fyddai'n cael ei gynnwys cyn i'r cofnodion gael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)29-08(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mawrth er mwyn dwyn ymlaen y cynnig i ethol Nick Ramsay fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Nick Bourne.

3.2 Nododd y Pwyllgor na fyddai Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ac na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 11 a 12 Tachwedd 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)28-08(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf - BC(3)26-08(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar Gynnig David Melding ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol - Comisiynydd Iaith Gymraeg, ar 3 Rhagfyr.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur ar Bwyllgorau Deddfwriaeth Parhaol - BC(3)29-08(p4)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i sefydlu pum pwyllgor deddfwriaeth parhaol, pob un â phum aelod ynghyd â chadeirydd na fyddai'n pleidleisio. Dylai un o'r pwyllgorau ymdrin, yn bennaf, â deddfwriaeth a gynigir gan Aelod unigol neu bwyllgor a dylai'r pedwar arall ymdrin, yn bennaf, â deddfwriaeth y Llywodraeth. Cynigiwyd y dylai'r Dirprwy Lywydd fod yn Gadeirydd dibleidlais y pwyllgor a fyddai'n ymdrin â deddfwriaeth a gynigir gan Aelodau a phwyllgorau.

4.2 Yng nghyfarfod heddiw, cytunodd y Pwyllgor Busnes i sefydlu'r Pwyllgor Deddfwriaeth cyntaf, i ymdrin, yn bennaf, â deddfwriaeth a gynigir gan Aelod unigol neu bwyllgor. Cytunwyd y byddai Rheolwyr Busnes yn darparu enwau eu henwebeion yn fuan.

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes na fyddai angen newid y Rheolau Sefydlog ar gyfer y model newydd o bwyllgorau. Fodd bynnag, nid oedd y Rheolau Sefydlog yn rhagweld rôl newydd Cadeirydd na fyddai'n pleidleisio. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i symud ymlaen yn y lle cyntaf trwy gonfensiwn yn hytrach na newid y Rheolau Sefydlog. Cymeradwywyd y confensiynau a amlinellwyd yn y papur a dywedodd y Cadeirydd y byddent yn cael eu cyfleu i aelodau'r pwyllgorau newydd.

**Llythyr gan Nerys Evans: Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) 200 - BC(3)29-08(p5)**

4.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Mesur arfaethedig Nerys Evans at bwyllgor ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

**5.Pwyllgorau**

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal digwyddiad lansio yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru - BC(3)29-08(p6)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i lansio'r ymgynghoriad ar gyfer ei ymchwiliad i Gynhyrchu Bwyd yng Nghymru yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Llun 1 Rhagfyr.

**Cais gan y Pwyllgor Cyllid am i Grŵp Rapporteur ymweld â Sweden fel rhan o'i ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat - BC(3)29-08(p7)**

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan y Pwyllgor Cyllid i anfon Grŵp Rapporteur i Sweden fel rhan o'i ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat, ddydd Iau 20 Tachwedd.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**